GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

23.2.2021

Annwyl Riant/Ofalwr

Fel eich Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus lleol, a'ch Pennaeth Addysg roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig ysgrifennu atoch wrth i'ch plentyn/plant ddychwelyd i'r ysgol, i ofyn am eich cymorth wrth weithio gyda ni i sicrhau bod y broses ddychwelyd hon yn llwyddiannus.

Mae'r pandemig wedi cael effaith ar fywydau pob un ohonom ond rwy'n credu y byddwch yn cytuno ei fod wedi cael effaith fwy ar ein plant na'r rhan fwyaf ohonom. Rwy'n gwybod, fel rhieni, y byddwch wedi teimlo'r straen sy'n gysylltiedig â pheidio ag anfon eich plant i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bosibl eich bod yn bryderus am eu llesiant, am eu cyfleoedd i dyfu a datblygu, am fethu cyfleoedd i wneud cyfeillgarwch ac i gael hwyl, neu am y posibilrwydd y byddant ar ei hôl hi gyda'u haddysg.

Mae'r camau rydym wedi gorfod eu cymryd gyda'n gilydd wedi bod yn anodd, ond maent wedi achub bywydau, wedi diogelu'r bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf, ac wedi helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau iechyd a gofal yn gallu parhau i ofalu amdanom pan fydd eu hangen arnom. Mae llwyddiant ein rhaglen frechu leol yn parhau i ddarparu mwy o amddiffyniad i'r rhai mewn perygl. Byddwn yn parhau i weithio'n galed i gyrraedd pawb cyn gynted ag y gallwn.

Ni allwn ymlacio eto. Mae angen i ni fod yn ofalus o hyd a chadw lefelau'r haint mor isel â phosibl, ond gallwn gymryd y cam cyntaf a dechrau cael ein plant yn ôl i'r ysgol. Wrth reoli'r pandemig yn lleol a diogelu'n poblogaeth, rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd, y Cyngor Lleol, sefydliadau gwirfoddol a chymunedol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, ond ni allwn lwyddo heb eich cymorth chi a phawb sy'n byw yn Sir y Fflint.

Mae ein penaethiaid a'u holl staff wedi gweithio'n hynod o galed i sicrhau bod ein hysgolion mor ddiogel â phosibl. Pan fydd eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol, gofynnwn i chi barhau i helpu i reoli lledaeniad yr haint drwy wneud y canlynol:

- Peidio ag anfon eich plentyn i'r ysgol os yw'n sâl, hyd yn oed os nad ydych yn siŵr ai Coronafeirws ydyw
- Parhau i weithio gartref os yw hynny'n bosibl
- Pan fyddwch yn mynd â'ch plentyn i'r ysgol, cadwch bellter o rieni eraill ar bob adeg a pheidiwch ag aros o gwmpas i siarad
- Peidiwch â gwahodd plant eraill (na'u rhieni) i'ch cartref i chwarae neu i aros, hyd yn oed yn yr awyr agored a hyd yn oed os ydynt yn yr un swigen yn yr ysgol
- Oni bai nad oes dewis gennych chi, peidiwch â rhannu lifft i'r ysgol na gwneud unrhyw weithgareddau eraill gyda theuluoedd eraill
- Sicrhewch fod eich plentyn yn deall pwysigrwydd golchi ei (d)dwylo yn rheolaidd

Diolch am eich cymorth wrth gadw'r feirws o dan reolaeth, ac am ein cynorthwyo i sicrhau bod ysgolion yn aros ar agor y tro hwn.

Teresa Owen
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Claire Homard
Prif Swyddog (Addysg ac leuenctid)
Cyngor Sir y FFlint

23.2.2021

Dear Parent/Carer

As your local Director of Public Health and Chief Officer for Education, we felt it was important to write to you as your child/children return to school, to ask for your help in working with us to make this return a success.

The pandemic has had an impact on all of our lives but I think you will agree that our children have been affected more than most. I know as parents you will have felt the strain of your children not being at school. You may be worried about their wellbeing, their chances to grow and develop, losing out on their friendships and fun, or about them falling behind with their learning.

The steps that we have had to take together have been hard, but have saved lives, protected the people most at risk and helped to make sure that our health and care services can continue to care for us when we need them. The success of our local vaccination programme continues to provide more protection to those at risk. We will keep working hard to reach everyone as quickly as we can.

We are not able to relax yet, we still need to be careful and keep the levels of infection as low as possible, but we can take the first step and begin to get our children back to school. In managing the pandemic locally and protecting our population, we work closely with colleagues in the Health Board, the Local Council, voluntary and community organisations and Public Health Wales but we cannot succeed without your help and that of everyone who lives in Flintshire.

Our Headteachers and all their staff have worked very hard to make our schools as safe as possible. When your child goes back to school we need you to continue to help to control the spread of the virus by:

- Not sending your child to school if they are unwell even if you are not sure if it is coronavirus
- Continue to work at home if at all possible
- When you take your child to school – always keep your distance from other parents and don't stay around and chat
- Don't invite other children (or their parents) to your home to play or stay, even outdoors and even if they are in the same bubble at school
- Unless you have no choice, please do not share a lift to school or other activities with other families
- Make sure your child understands the importance of washing their hands regularly

Thank you for your help in keeping the virus in check and helping us to keep schools to stay open this time.

Teresa Owen
Director of Public Health
Betsi Cadwaladr University Health Board

Claire Homard
Chief Officer Education & Youth
Flintshire County Council